



Traddodiad Barddol – CA5

Tasg 5: Barddoni

Be ydy barddoni? Thomas, G. 2005. *Apocalups Yfory*, Barddas: Llandybie, t. 9

Barddoni ydi

Bod mewn cors hyd at eich gwddw

Yno'n suddo, yno'n geirio,

A neb o gwbl yn gwrando.

Barddoni ydi

Sefyll yn wynebu clogwyn

Yn gweiddi, gweiddi yno

A dim oll yn dod odd'no

Ond eco.

Barddoni ydi

Bodoli mewn tywyllwch,

Neu grafu o gwmpas mewn llwch...

“Pam, felly, gwneud hyn oll?”



Cwestiwn da,

Wel, y mae o, welwch chi,

Yn rhywbeth i'w wneud

On'd ydi?

Yn y gerdd *Be ydi barddoni?*, ar un olwg mae Gwyn Thomas yn trin y broses o ysgrifennu cerddi'n ysgafn, bron fel pe byddai'n gwneud hwyl am ei ben ei hunan, ac yn gweld y peth fel rhywbeth anodd ond ofer a dibwrpas.

Daw i'r casgliad nad oes neb yn gwrando ar fardd, ond bod ysgrifennu cerddi yn llenwi amser o leiaf ac yn 'rhywbeth i'w wneud'.

Yn y 60egau datblygodd Kim Casali o Seland Newydd sribed gartŵn a ddaeth yn boblogaidd iawn dan y teitl 'Love is ...'.

Roedd hi'n diffinio cariad drwy gyfeirio at wahanol sefyllfaoedd.

Un o'r rhai mwyaf enwog oedd 'Love is ... being able to say you're sorry' sy'n ymddangos ar bosteri a chardiau hyd heddiw.





Tasg

1. Ceisiwch orffen y brawddegau isod gyda chymal sy'n darlunio sefyllfa'n eglur, fel yng ngherdd Gwyn Thomas.
2. Yna, fel dosbarth, agorwch dudalen PADLET a thafwch eich brawddegau ar y sgrin er mwyn cymharu cynigion. (Os nad oes rhaglen fel PADLET ar gael, defnyddiwch gardiau bach a'u glynu wrth wal neu ddarn mawr o bapur.)
 - Oes rhai ohonoch wedi mynd i'r un cyfeiriad â'ch gilydd?
 - Pa rai sy'n dangos ôl dychymyg mawr?
 - Pa rai sy'n codi gwên?

	Barddoni ydi ...	'Bodoli mewn tywyllwch'
Ceisiwch orffen y brawddegau isod gyda chymal sy'n darlunio sefyllfa'n eglur, fel yng ngherdd Gwyn Thomas.		
1	Barddoni yw ...	
2	Cariad yw ...	
3	Adolygu yw ...	
4	Gweithio yw ...	
5	Ymdrechu yw	
6	Chwerthin yw ...	
7	Tristwch yw ...	
8	Cyfaill yw ...	
9	Colli yw ...	
10	Gobeithio yw ...	